4. 162

# Pwllceffyl—Hen Gartref fy Mebyd.

[Ail-argraffiad o'r "County Echo" am Ebrill 25, 1912].

Mae hen gartref hoff fy mebyd,
  Erbyn hyn yn llwyd ei wedd !
Fel henafgwr mewn penllydni,
  Yn ymgrymu tua'r bedd ;
Blin yw gweled yn adfeilion
  'R hoffus le rhoes gyntaf gam,
Ac y dysgais pan yn blentyn
  Adrodd penill ar ol mam.

Ar ucheldir yn Cibidiog,
  Rhan o Ddyfed—gwlad yr hud :
Saif hen gartref hoff fy mebyd,
  Lle bu mam yn siglo'm cryd ;
Nid oedd yno ond tawelwch,
  Ar y bryn ac yn y fro ;
Swn y Solfach wan yn cerdded,
  Trwy y glyn ar hyd y gro.

Nid oedd yno goedydd preffion,
  Blanwyd gan haelionus law,
I gysgodi'r fangre dawel,
  Rhag y gwyntoedd cryf a'r gwlaw ;
Ond 'roedd yno un yn gwylio
  Rhag i'r teulu hoff gael cam :
Gwlith y nefoedd yn y bore,
  Irai ruddiau hoff fy mam.

Nid oedd yno foethau blasus
  Yn amrywiaeth ar y bwrdd,
Ond 'roedd yno wleddoedd breision,
  Pan y plant oedd yno'n cwrdd ;
Nid oedd yno wisgoedd gwychion
  I addurno cyrph dinam :
Ond y siaced lwyd a'r llodrau
  'Nol y ffasiwn oedd gan mam.

Iechyd mawr oedd codi'n fore
  I roi tro ar hyd y glyn;
Cyrchu gartre'r gwartheg blithion,
  Gweld y praidd oedd ar y bryn.
Ond yr olwg fwyaf swynol,
  Gwel'd y wawr yn torri draw,
Pan oedd cawr y dydd yn nesu,
  Yn ei gerbyd yn ddifraw.

O'r fath olwg gu lesmeiriol
  Ar y wlad o gylch y lle,
Fel pe Natur mewn esgorfa
  Ar oleuni yn y Ne' ;

Swn caniadau'r cor asgellog
  Ar y bryn a lanwai'm bryd,
Fel rhyw don o for gogoniant
  Yn ymdorri dros ein byd.

Yn eu plith y gog a'r 'hedydd,
  A'u holl nodau'n ddigon clir,
A chwibaniad y fwyalchen
  Yn adseinio dros y tir ;
Yntau'r brongoch gyda'r fronfraith,
  A rhyw lu o lwydiaid man,
A'r benfelen oedd yn uno,
  Yn y folawd gyda'r fran.

Byth mi gofiaf am ffarwelio
  A fy mam wrth ddrws y ty ;
Gwelais yn ei gruddiau gwlybion
  Ddyfnder teimlad calon gu ;
'Roedd ffarwelio iddi'n boenus,
  Er nas gwyddwn I paham ;
Erbyn hyn mae genyf 'sboniad
  Ar ymddugiad rhyfedd mam.

Ond y bwthyn sydd mewn adfail,
  Olion dwylaw hoff fy nhad
Sydd i'w gwel'd yn mhob cyfeiriad,
  Gylch y bwthyn adfail mad ;
Olion diwyd dwylaw llafur,
  Sydd yn aros hyd yn hyn,
Yn y mur a'r ffiniau gododd
  Ar y llain sydd ar y bryn.

Heddyw'r teulu sydd ar wasgar
  Fu'n cydchwareu dan y to,
Rhai yn mhell o'r man lle'u ganwyd.
  Rhai yn cysgu yn y gro ;
Nid oes byth gyfarfod etto,
  Dan dy gronglwyd, fwthyn mad,
  Ond caf wel'd wrth fyned heibio
  Olion dwylaw hoff fy nhad.

Er cael oriel lawn o'r teulu,
  Gyda'r bwthyn yn y wlad,
A chael derw yn ymylwydd,
  O hen drawstiau'r bwthyn mad ;
Wedi llunio gan arlunydd
  Yn oreurog ddarlun chweg,
Ac yn dangos ol celfyddyd,
  A saerniaeth gywrain deg.

Nid oes yn yr oriel gyffro,
  Nid oes un yn newid gwedd,
Nid oes llais o'r trawst yn atteb,
  Ond tawelwch fel y bedd;
Nid yw'r oll ond gwan gysgodion,
  Ac adgofion am a fu;
Gwag yw'r oriel heb gymdeithas,
  Gwag yw'r ardal heb y ty.

W. HARRIES.

Caerdydd, Ebrill 13, 1912.

X205 222314